# Adroddiad Ansawdd Archwilio 2022

## Meithrin ymddiriedaeth mewn archwilio

Hydref 2022

Mae'r Adroddiad Ansawdd Archwilio hwn yn cwmpasu ein trefniant a gweithgarwch monitro ansawdd archwilio dros y 12 mis diwethaf.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. O ganlyniad, yn yr Adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio'n benodol at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru mewn adrannau lle mae angen bod yn gyfreithiol fanwl.

Os oes arnoch angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.


Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Ffôn 02920 320 500

E-bost post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

Twitter @WalesAudit


Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

# Ynglŷn ag Archwilio Cymru

Ar ran pobl Cymru, rydym yn archwilio gwariant cyhoeddus ac yn adnabod ffyrdd o wella gwasanaethau cyhoeddus. Mae ein gwaith o gymorth i graffu’n effeithiol ar arian cyhoeddus gan y Senedd a chynrychiolwyr etholedig lleol. Rydym yn gwbl annibynnol ar lywodraeth.

## Beth ydym yn ei wneud?




## Beth yw ein huchelgeisiau?




**Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Archwilio Cymru yn ein Cynllun Blynyddol 2022-23.**

# Cynnwys

Pwysigrwydd ansawdd archwilio – Yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru 5

Canolbwyntio ar ansawdd i feithrin ymddiriedaeth a hyder – Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio 7

Sylwebaeth annibynnol – Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol 9

Rhan 1: Trosolwg o Archwilio Cymru 11

Rhan 2: Cyflawni ansawdd archwilio 14

Rhan 3: Deilliannau ansawdd archwilio 26

Eich cefnogi chi 31

# Pwysigrwydd ansawdd archwilio

Yn ein rhagair i'n Hadroddiad Ansawdd Archwilio yn 2021, fe wnaethom bwysleisio bod gan archwilio rôl arwyddocaol i gefnogi llywodraeth a'i dwyn i gyfrif wrth iddi ymdrin ag un o'r agendâu mwyaf y mae llywodraeth wedi'u hwynebu ers y rhyfeloedd byd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r heriau hynny wedi ehangu wrth i brinderau tanwydd a chostau byw cynyddol ychwanegu mwy byth o frys a chymhlethdod at fusnes llywodraeth.

Fel archwilwyr mae angen i ni allu ymateb yn effeithiol i'r heriau hyn. Yn y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cyhoeddi ein strategaeth pum mlynedd newydd[1], sy'n nodi tri maes ffocws lle byddwn yn blaenoriaethu ein camau gweithredu:

- rhaglen archwilio strategol, ddynamig o ansawdd uchel.
- dull wedi'i dargedu ac effeithiol o gyfathrebu a dylanwadu.
- diwylliant a model gweithredu sy'n caniatáu i ni ffynnu yn awr ac yn y dyfodol.

Fel y mae'r Strategaeth yn ei nodi, mae datblygu'r diwylliant cywir yn hanfodol i'n galluogi i ffynnu ac felly cyrraedd safonau uchel o ran ansawdd archwilio. Yn ei gyhoeddiad ym mis Rhagfyr 2021 am ddiwylliant cwmnïau archwilio[2] fe amlygodd y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC) bwysigrwydd diwylliant a arweinir gan ddiben, sy'n seiliedig ar ansawdd archwilio ac y mae cynnal ymddiriedaeth yn greiddiol iddo. Mae hyn yn hanfodol i'r hyn yr ydym yn ei arddel ar gyfer Archwilio Cymru.

Er mwyn i ni gael ein gweld a'n derbyn fel sylwebydd dibynadwy, mae angen i ni barhau i feithrin diwylliant sy'n canolbwyntio ar ansawdd. Ni fu hyn erioed yn bwysicach nag yn awr pan fo cwmnïau blaenllaw ledled y byd yn wynebu dirwyon uwch nag erioed am ddiffygion yn eu hansawdd archwilio; mewn dau achos, am ddarparu dogfennau a gwybodaeth anwir a chamarweiniol ar gyfer rheoleiddwyr[3]; ac, yn UDA, am gefnogi twyllo mewn elfennau o arholiadau proffesiynol[4].

Rydym ni'n credu, er ei fod yn wahanol iawn, bod model archwilio'r sector cyhoeddus yng Nghymru'n fwy cadarn hefyd: mae ein hannibyniaeth wedi'i hymgorffori mewn deddfwriaeth; mae gan ein timau archwilio ffocws ar y cyd ar les y cyhoedd a'r safonau uniondeb uchaf; ac, fel a nodir yn yr adroddiad hwn, rydym yn buddsoddi, a byddwn yn parhau i fuddsoddi, yn ansawdd archwilio. Mae'n dda gweld a chlywed yr adborth cadarnhaol yr ydym yn ei gael gan Adran Sicrhau Ansawdd ICAEW (gweler **Rhan 3**): yn rhannol, am eu canfyddiadau da ar y cyfan mewn perthynas â'n gwaith archwilio; ond hefyd, am ein parodrwydd sefydliadol i ddysgu ac i ddatblygu.

[1] Sicrhau, Esbonio, Ysbrydoli. Ein Strategaeth 2022-27

[2] Audit Firm Culture: Challenge. Trust. Transformation

[3] Sanctions against KPMG and others in connection with Regenersis & Carillion audits

[4] Ernst & Young to Pay $100 Million Penalty for Employees Cheating on CPA Ethics Exams and Misleading Investigation

Ni allwn byth fod yn hunanfodlon. Rhaid i ni barhau i ddatblygu ac i fabwysiadu'r arferion proffesiynol gorau; a rhaid i ni hefyd barhau i wneud ansawdd archwilio'n ganolog i'n prosesau penderfynu sefydliadol. A rhaid i ni fod yn agored ynglŷn â'r heriau yr ydym yn eu hwynebu a sut yr ydym yn bwriadu goresgyn yr heriau hynny, rhywbeth yr ydym yn amcanu at ei wneud yn yr Adroddiad hwn.

Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi bod mewn trafodaethau gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynglŷn â chamau posibl i sefydlu fframwaith mwy ffurfiol ar gyfer goruchwyliaeth annibynnol ar ansawdd gwaith archwilwyr cyffredinol. Rydym ni'n credu mai dim ond trwy ddeialog agored a thryloyw ynglŷn â ble'r ydym ni, ble y mae angen i ni gyrraedd, a sut yr ydym yn bwriadu cyrraedd yno y gellir cyflawni ymddiriedaeth mewn archwilio. Yn yr ysbryd hwnnw o dryloywder byddwn felly'n parhau i ymgysylltu'n adeiladol â'r sgyrsiau hyn.

Trwy'r adroddiad hwn, a thrwy'r negeseuon yr ydym yn eu nodi uchod, rydym yn gobeithio y gallwn barhau i feithrin hyder ac ymddiriedaeth yn ansawdd ein gwaith.



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



**Lindsay Foyster**
Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

# Canolbwyntio ar ansawdd i feithrin ymddiriedaeth a hyder

Mae safonau uchel o ran ansawdd archwilio'n hanfodol i wireddu ein huchelgeisiau fel Archwilio Cymru ac i feithrin ymddiriedaeth a hyder yn ein gwaith. Mae fy ffocws sylfaenol fel Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio ar lywio datblygiad ein trefniadau ar gyfer cyflawni archwilio o ansawdd da ac ar ein prosesau ar gyfer monitro'r ansawdd hwnnw.

Y **llinell sicrwydd gyntaf** yn ein model Tair Llinell Sicrwydd yw **ein pobl**. Mae cyrraedd safonau uchel o ran ansawdd archwilio'n dibynnu ar ein gallu i recriwtio, cadw a datblygu unigolion talentog ac ymgysylltiol sy'n ymrwymedig i gyflawni ansawdd archwilio. Un o'r heriau mawr a wynebwyd gennym yn gynharach yn y cyfnod y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef oedd llenwi swyddi gwag ar draws Gwasanaethau Archwilio. Rwy'n falch ein bod wedi llwyddo gan mwyaf i lenwi'r swyddi gwag hynny, ond mae heriau mawr yn bodoli o hyd. Mae adroddiadau yn y cyfryngau ac astudiaethau recriwtio'n amlygu drosodd a throsodd bod diffyg ymgeiswyr ar gyfer swyddi gwag ar draws y gwasanaethau archwilio, cyfrifyddu a gwasanaethau proffesiynol eraill – sy'n debyg i'n profiad diweddar ni – gyda llawer o gwmnïau'n gwella'u pecynnau cydnabyddiaeth ariannol yn sylweddol i gael mantais gystadleuol yn y farchnad. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn datblygu cynllun y gweithlu ar gyfer Gwasanaethau Archwilio y bydd datblygu ein pobl yn greiddiol iddo. Dim ond trwy fuddsoddi yn ein pobl a rhoi cyfleoedd iddynt ddatblygu a ffynnu y gallwn sicrhau bod gennym y sgiliau y mae eu hangen arnom heddiw ac yn y dyfodol.

Trwy ein **hail linell sicrwydd** rydym yn sefydlu **polisïau, offer, dysgu a datblygu, canllawiau ac arweinyddiaeth** i gynorthwyo ein timau archwilio i gyrraedd y safonau ansawdd archwilio uchel hynny yr ydym yn ymgyrraedd atynt. Yn y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi buddsoddi yn ein swyddogaeth cymorth technegol, sy'n ganolog i lawer o'r hyn y mae angen i ni ei sefydlu i gefnogi ein timau archwilio. A thrwy'r swyddogaeth cymorth honno – gan weithio gydag eraill ar draws Archwilio Cymru (a chyda'n cymheiriaid yn asiantaethau archwilio eraill y DU) – rydym wedi canolbwyntio ar ddatblygu ein dulliau archwilio trwy roi safonau newydd seiliedig-ar-risgiau ar waith ar gyfer ein gwaith archwilio cyfrifon[5] a chyflwyno safonau proffesiynol newydd ar gyfer ein gwaith archwilio perfformiad[6]. Mae mabwysiadu safonau newydd yn dod ag elfen o anghynefindra a newid yn ei sgîl i dimau archwilio sydd â'r potensial i effeithio'n anffafriol ar ganlyniadau ansawdd archwilio yn y tymor byr.

[5] ISA (UK) 315, Adnabod ac Asesu'r Risgiau o Gamddatganiadau Perthnasol ar gyfer gwaith archwilio cyfrifon
[6] Safonau INTOSAI ar gyfer gwaith archwilio perfformiad

Er mwyn lliniaru'r risgiau hyn caiff ein dulliau archwilio diwygiedig eu hategu gan blatfformau archwilio pwrpasol, a adeiladwyd gan ddefnyddio ymarferoldeb Microsoft 365, sydd wedi'u teilwra'n arbennig i'n hanghenion penodol ni. Caiff lansiad ein dulliau a phlatfformau archwilio newydd ei danategu hefyd gan raglenni dysgu a datblygu helaeth a chymorth parhaus wedi'i gynllunio i arfogi ein timau archwilio â'r wybodaeth a'r hyder y mae eu hangen arnynt i ddefnyddio'r offer hyn i gyrraedd safonau uchel o ran ansawdd archwilio.

Trwy ein **trydedd linell sicrwydd**, rydym yn cael **sicrwydd annibynnol** dros effeithiolrwydd y ddwy linell sicrwydd gyntaf a help i adnabod cyfleoedd ar gyfer gwella'n barhaus. Yn y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gwella, ac rydym yn parhau i ddatblygu, ein trefniadau ar gyfer cael sicrwydd annibynnol, gan gynnwys:

- ehangu rhaglen adolygu ansawdd ein gwaith archwilio cyfrifon gan Adran Sicrhau Ansawdd (QAD) Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW);
- estyn adolygiad QAD ar sail cynllun peilot i'n gwaith archwilio perfformiad am y tro cyntaf;
- datblygu prosesau dadansoddi achosion sylfaenol (RCA) i ddeall yn effeithiol beth yw'r rhwystrau i gyflawni ansawdd archwilio (ac i ddysgu sut i fynd ati'n well i rannu meysydd arfer da a ganfuwyd); a
- buddsoddi mewn datblygu system rheoli ansawdd newydd yn unol ag ISQM 1[7] (cyn y dyddiad ar gyfer ei rhoi ar waith, sef 15 Rhagfyr 2022).

Fy mhrif weledigaeth ar gyfer y model archwilio cyhoeddus yng Nghymru yw ei fod yn dal i fod yn berthnasol ac yn gadarn; ei fod yn gyson â'r arfer proffesiynol gorau ledled y byd; a'i fod yn llwyr haeddu hyder ac ymddiriedaeth. Mae arnom ddyletswydd tuag at bobl Cymru i wireddu'r weledigaeth hon. Ni allwn ond gwneud hyn trwy adeiladu ar y sylfeini cryfion sydd gennym yn barod; gweithio i adnabod a mabwysiadu'r arfer proffesiynol gorau o bob rhan o'r proffesiwn byd-eang; a pharhau i fuddsoddi i gyflawni'r archwilio o ansawdd da y mae ar ein cymdeithas ei angen ac y mae'n ei haeddu.



**Ann-Marie Harkin**
Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio

[7] ISQM 1, Rheoli ansawdd i gwmnïau sy'n cyflawni archwiliadau neu adolygiadau o ddatganiadau ariannol, neu ymrwymiadau eraill sy'n ymwneud â gwasanaethau sicrwydd neu wasanaethau cysylltiedig

# Sylwebaeth annibynnol

## Cyflwyniad

Rwy'n nodi isod yr adroddiad blynyddol y mae'n ofynnol i mi, fel y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol a Chadeirydd ein Pwyllgor Ansawdd Archwilio, ei ddarparu ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol a Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ar:

- effeithiolrwydd ein trefniadau ansawdd archwilio; a
- digonolrwydd yr adnoddau a neilltuir i'r trefniadau hynny.

Mae ansawdd archwilio yn greiddiol, a rhaid iddo barhau i fod yn greiddiol, i bopeth y mae arnom eisiau ei gyflawni fel Archwilio Cymru. Mae hi felly'n hanfodol ein bod yn cynnal safonau uchel o ran ansawdd archwilio er mwyn i ni allu gwarchod a gwella ein safle fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol.

## Effeithiolrwydd trefniadau

Rwy'n credu bod gennym drefniadau sydd wedi hen ennill eu plwyf i fonitro ansawdd ein gwaith archwilio cyfrifon, gan gynnwys contract ar gyfer monitro allanol gydag Adran Sicrhau Ansawdd (QAD) Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW). Roeddwn yn falch i weld bod y rhaglen estynedig o adolygiadau o gyfrifon gan QAD wedi cael ei chwblhau'n llwyddiannus a chadarnhad y bydd hon yn parhau ar gyfer adolygiadau o archwiliadau 2021-22.

Roeddwn hefyd yn falch i weld bod rhaglen adolygu QAD wedi cael ei hestyn i gynnwys ein gwaith archwilio perfformiad ar sail cynllun peilot am y tro cyntaf a bod y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio'n bwriadu estyn y cynllun peilot hwnnw am flwyddyn arall.

Rwyf wedi gweld yn ystod y flwyddyn bod cynnydd da wedi cael ei wneud o ran rhoi safonau proffesiynol newydd ar waith i danategu ein gwaith archwilio cyfrifon a pherfformiad a fydd yn gwella trylwyredd y gwaith hwnnw. Rwyf hefyd wedi nodi bod cynnydd yn cael ei wneud o ran rhoi system rheoli ansawdd newydd ar waith, a fydd mewn grym o 15 Rhagfyr 2022. Edrychaf ymlaen at roi cymorth i wreiddio'r system newydd hon trwy'r Pwyllgor Ansawdd Archwilio.

## Digonolrwydd adnoddau

Fe amlinellais yn ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2021 fy mhryderon hanesyddol ynghylch lefel yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi a datblygu ein trefniadau ansawdd archwilio. Yn yr adroddiad hwnnw, fe wnes i hefyd fyfyrio ynghylch ymarferion recriwtio gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio i ymateb i'r sefyllfa hon ac ynghylch ein buddsoddiad yn ansawdd archwilio'n fwy eang.

Yn dilyn y buddsoddiad hwn, ac fel a amlinellir uchod, rwyf wedi bod yn falch o weld y cynnydd da iawn sydd wedi cael ei wneud ar draws ystod o fentrau pwysig i wella ein trefniadau ansawdd archwilio.

Fodd bynnag, mae disgwyliadau o ran ansawdd archwilio'n dal i dyfu. Felly rhaid i ni gadw ein ffocws ar ansawdd archwilio, ar ymateb i ddisgwyliadau rheoleiddiol cynyddol ac ar sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i barhau i wireddu ein huchelgeisiau i gyflawni gwaith archwilio o ansawdd da. Felly byddaf yn parhau i wneud gwaith monitro, ac adrodd fel y bo angen, ar ddigonolrwydd ein trefniadau esblygol a'r adnoddau a neilltuir i gefnogi'r trefniadau hynny.



**Kevin Thomas**
Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol

# Rhan 1: Trosolwg o Archwilio Cymru

## Pwy ydym ni a beth ydym yn ei wneud

1 Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o sector cyhoeddus Cymru. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus a gaiff ei wario yng Nghymru, gan gynnwys yr arian y pleidleisir arno'n flynyddol gan y Senedd. Caiff elfennau sylweddol o'r cyllid hwn eu trosglwyddo gan Lywodraeth Cymru i'r GIG a llywodraeth leol yng Nghymru.

2 Mae Swyddfa Archwilio Cymru, a gyfansoddwyd fel bwrdd statudol, yn gyfrifol am ddarparu adnoddau, megis staff, ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac am fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

3 Mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio cyfrifon a gwneud gwaith archwilio perfformiad lleol mewn ystod eang o gyrff cyhoeddus, ochr yn ochr â chynnal rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth-am-arian cenedlaethol. Gellir cyflawni'r swyddogaethau hyn ar y cyd os oes angen, ar draws gwahanol fathau o gyrff, i archwilio gwariant cyhoeddus ni waeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau.


4 Gyda'n gilydd, fel Archwilio Cymru, rydym yn archwilio oddeutu £21 biliwn o incwm a gwariant, sy'n fwy na chwarter Cynnyrch Domestig Gros Cymru. Yn gynyddol, rydym yn ystyried stiwardiaeth ar adnoddau dynol a naturiol ochr yn ochr ag ystyried adnoddau ariannol a'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn rhoi cyfrif am eu defnyddio.

5 Rydym hefyd yn adnabod arfer da ar draws holl ehangder ein gwaith archwilio ac yn lledaenu hwn trwy ystod o gyfryngau, gan gynnwys blogiau, podlediadau a seminarau a gweminarau dysgu ar y cyd.

6 Rydym yn gwneud ein gwaith yn unol â Chod Ymarfer yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Cod yn rhagnodi'r ffordd y dylai swyddogaethau archwilio a rhai swyddogaethau eraill gael eu cyflawni ac mae'n ymgorffori'r hyn sy'n gyfystyr ag arfer proffesiynol gorau ym marn yr Archwilydd Cyffredinol.

7 Rydym hefyd yn cydweithio'n agos gydag asiantaethau archwilio eraill y DU a chyda'r prif gyrff adolygu allanol eraill yng Nghymru i wella effaith gyfunol ein gwaith.

**Arddangosyn 1: ein gwaith craidd**




Ffynhonnell: Cynllun Blynyddol Archwilio Cymru 2022-23

8 Mae rhagor o wybodaeth am ein rhaglen waith ar gael yn ein Cynllun Blynyddol 2022-23.

# Ein huchelgeisiau strategol

9 Fel a grynhoir yn **Arddangosyn 2,** rydym wedi adnabod pedwar uchelgais eang ar gyfer ein busnes. Ar y cyd, maent yn disgrifio'r llwybr yr ydym yn ei ddilyn tuag at gyflawni ein llawn botensial fel ysgogydd newid a gwelliant wrth graidd gwasanaethau cyhoeddus ac atebolrwydd democrataidd.

**Arddangosyn 2: ein huchelgeisiau strategol**




Ffynhonnell: Cynllun Blynyddol Archwilio Cymru 2022-23

# Datblygiadau yn y proffesiwn archwilio ehangach

10 Ym mis Mawrth 2021, fe gyhoeddodd Llywodraeth y DU ddogfen ymgynghori **Restoring trust in audit and corporate governance**. Roedd hon yn ymateb i'r argymhellion a wnaed mewn adolygiadau wedi'u comisiynu gan y Llywodraeth a gynhaliwyd gan Syr John Kingman, Syr Donald Brydon a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar yr angen i gryfhau gwahanol agweddau ar y cyfundrefnau llywodraethu corfforaethol ac archwilio a'r modd y rheoleiddir archwilwyr yn y sector preifat.

11 Ym mis Mai 2022, fe gyhoeddodd Llywodraeth y DU ei hymateb i'r ymgynghoriad hwn ar gryfhau system archwilio, adrodd corfforaethol a llywodraethu corfforaethol y DU. Mae'r ymateb hwn yn nodi y bydd rhoi newid ar waith mewn modd cymesur a chost-effeithiol yn golygu '… a range of actors – not just government – taking forward multiple strands of reform over a period of several years'.

12 Mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu ei bod yn well i ymdrechion i wella llawnder gwybodaeth ac ansawdd archwilio gael eu cyflawni gan y corff rheoleiddio newydd arfaethedig – Yr Awdurdod Archwilio, Adrodd a Llywodraethu (ARGA). Byddwn yn parhau i fonitro'r datblygiadau hyn.

13 Fe wnaeth y ddogfen ymgynghori wreiddiol gynigion ynghylch goruchwyliaeth annibynnol ar ansawdd gwaith archwilwyr cyffredinol y DU. Mae ymateb Llywodraeth y DU yn dynodi y bydd yn gweithio gyda llywodraeth, cyrff archwilio a chyrff deddfwriaethol yn y DU i ymateb i'r cynnig hwn. Rydym mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am y cynnig hwn ar hyn o bryd.


# Rhan 2: Cyflawni ansawdd archwilio

## Sut yr ydym yn cyflawni ansawdd archwilio


14 Rydym yn disgrifio yn **Rhan 1** o'r Adroddiad hwn sut y mae disgwyliadau o ran ansawdd archwilio'n dal i gynyddu. Yn ôl yr ysgrifennydd ac athronydd o Oes Fictoria, John Ruskin, 'Nid yw ansawdd byth yn digwydd trwy hap a damwain. Mae wastad yn deillio o ymdrech deallus'. Mae hyn yr un mor wir am ansawdd archwilio. I sicrhau ansawdd archwilio da mae angen timau ymrwymedig sy'n cymryd cyfrifoldeb personol am gyflawni ansawdd archwilio ac sy'n cael eu cefnogi yn y ffordd iawn.

15 Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn.

**Arddangosyn 3: ein model tair llinell sicrwydd**






Ffynhonnell: Archwilio Cymru

16 Y **llinell sicrwydd gyntaf** yw ein staff a rheolwyr sy'n gyfrifol yn unigol ac ar y cyd am gyrraedd y safonau ansawdd archwilio yr ydym yn dyheu amdanynt. Mae angen iddynt fod â'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymorth angenrheidiol i wneud hyn.

17 Yr **ail linell sicrwydd** yw'r polisïau, yr offer, y gweithgarwch dysgu a datblygu, y canllawiau, a'r arweinyddiaeth yr ydym yn eu darparu ar gyfer ein staff i'w cynorthwyo i gyrraedd y safonau ansawdd archwilio hynny.

18 Y **drydedd linell sicrwydd** yw'r gweithgareddau hynny sy'n darparu sicrwydd annibynnol ynghylch effeithiolrwydd y ddwy linell sicrwydd gyntaf ac yn helpu i adnabod cyfleoedd ar gyfer gwella'n barhaus.

## Y llinell sicrwydd gyntaf: ein pobl

19 Mae bod â'r staff cywir sydd â digon o amser i wneud gwaith archwilio'n hanfodol i gyflawni sicrwydd archwilio. Mae'r un mor hanfodol bod yr aelodau hynny o staff yn mabwysiadu dull ymholgar a sgeptigol ac yn derbyn cyfrifoldeb personol am ansawdd eu gwaith eu hunain.

20 Rydym yn gweithredu prosesau recriwtio sydd wedi'u diffinio'n dda i sicrhau bod ein staff i gyd yn meddu ar y cymhwysedd a'r galluoedd angenrheidiol i wneud eu gwaith. Ar gyfer ein gwaith archwilio cyfrifon mae gennym lwybrau mynediad proffesiynol sefydledig gydag ymgeiswyr newydd yn ymuno naill ai fel prentisiaid AAT neu hyfforddeion ICAEW.

> 'Rwyf newydd gwblhau fy mlwyddyn olaf fel prentis AAT yn Archwilio Cymru ac rwyf wedi pontio'n ddiweddar i'r cynllun hyfforddeion graddedig ICAEW. Roeddwn yn teimlo'n ddarostyngedig i gael Gwobr Myfyriwr y Flwyddyn ar gyfer AAT Lefel 4 yn y coleg. Mae fy nghydweithwyr wedi bod yn allweddol o ran fy helpu trwy fy hyfforddiant a'm datblygiad hyd yn hyn. Rwy'n edrych ymlaen at gael mwy o brofiad yn Archwilio Cymru.'
>
> **Alice Taylor**
> Hyfforddai Archwilio

21 Un o'r heriau yr ydym yn dal i'w hwynebu – ar y cyd â sefydliadau gwasanaethau proffesiynol yn gyffredinol – yw galw uwch yn y farchnad am gyfrifwyr ac archwilwyr newydd gymhwyso. Rydym yn adolygu ein gweithgareddau recriwtio i godi ymwybyddiaeth a denu mwy o ymgeiswyr ac rydym yn datblygu mesurau i wella ein gallu i gadw staff.

22 Ar gyfer yr holl waith archwilio, rydym yn aseinio cyfrifoldeb i arweinydd ymgysylltu sy'n gyfrifol am gyfeiriad y gwaith hwnnw ar y cyfan ac am sicrhau bod y tîm archwilio'n meddu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i wneud y gwaith. Mae'r arweinydd ymgysylltu hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod aelodau'r tîm archwilio'n cael yr oruchwyliaeth a'r cymorth iawn i wneud eu gwaith.

23 Bydd achlysuron pan fydd agweddau ar ein gwaith yn cynnwys meysydd hynod arbenigol, er enghraifft adolygu tybiaethau actiwaraidd ar gyfer pensiynau a phrisiadau eiddo. Yn yr achosion hyn, rydym yn ymgysylltu ag arbenigwyr allanol â

chymwysterau addas i roi cymorth ychwanegol gyda'n gwaith. Mae datblygu arbenigwyr mewnol a fydd yn cael hyfforddiant manwl mewn rhai meysydd penodol yn faes yr ydym yn canolbwyntio arno ar hyn o bryd wrth i ni ymateb i'r cymhlethdod bythol gynyddol yr ydym yn ei wynebu wrth wneud ein gwaith.

## Ail linell sicrwydd: trefniadau ar gyfer cyflawni ansawdd archwilio

### Arweinyddiaeth a diwylliant

24 Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio'n atebol i'r Archwilydd Cyffredinol am ansawdd ein holl waith archwilio, gan gynnwys y gwaith a gyflawnir gan staff Archwilio Cymru a chontractwyr allanol. Mae hi'n sicrhau bod ansawdd archwilio'n flaenllaw yn yr hyn yr ydym yn ei wneud trwy:

- osod safonau personol ar gyfer ansawdd archwilio ac arwain trwy esiampl;
- gwreiddio ansawdd archwilio yn ein strategaethau, ein diwylliant, ein gwerthoedd, ein cod ymddygiad a'n methodolegau archwilio;
- hyrwyddo pwysigrwydd ansawdd archwilio trwy ein system arfarnu perfformiad;
- darparu negeseuon rheolaidd, agored ac eglur i staff am bwysigrwydd ansawdd archwilio; a
- sefydlu llinellau cyfrifoldeb clir ar gyfer ansawdd archwilio.

25 Mae ein diwylliant yn un sy'n ymrwymedig i wella'n barhaus ac i gynorthwyo ein staff i gyflawni'r gwelliant hwnnw, trwy ddysgu a datblygu a'n trefniadau rheoli perfformiad.

### Moeseg

26 Trwy God Ymarfer Archwilio'r Archwilydd Cyffredinol, rydym yn mabwysiadu ac yn cymhwyso'r Safon Foesegol a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol i'n holl waith.

27 Un o nodweddion allweddol archwilwyr yw'r gofyniad ein bod yn annibynnol ar y rhai yr ydym yn eu harchwilio. Mae hyn yn cynnwys nid dim ond cyflawni gwaith archwilio ond annibyniaeth o ran penodiadau hefyd. Mae'r annibyniaeth hon yn rhoi cymorth i ni arfer sgeptigaeth broffesiynol ac yn ein galluogi i ddod i gasgliadau mewn modd gwrthrychol heb i ddylanwadau a allai danseilio ein crebwyll proffesiynol effeithio arnom.

28 Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o sector cyhoeddus Cymru. Mae'r swydd yn annibynnol ar lywodraeth ac fe wneir penodiadau gan y Brenin neu'r Frenhines sy'n teyrnasu ar sail enwebiad gan y Senedd. Penodir Archwilwyr Cyffredinol am gyfnod penodedig o wyth mlynedd a dim ond gan y Brenin neu'r Frenhines a hynny dan amgylchiadau cyfyngedig iawn

y gallant gael eu diswyddo. Mae cydnabyddiaeth ariannol yr Archwilydd Cyffredinol yn dâl uniongyrchol a godir ar Gronfa Gyfunol Cymru, sy'n gwarchod annibyniaeth y swydd.

29 Mae ein Cod Ymarfer Archwilio a'n Cod Ymddygiad staff yn atgyfnerthu pwysigrwydd annibyniaeth a gwrthrychedd i'n gwaith. Mae'n ofynnol i'n holl staff wneud datganiad blynyddol o annibyniaeth lle maent yn nodi unrhyw gysylltiadau â'r cyrff yr ydym yn eu harchwilio a allai amharu ar eu hannibyniaeth. Lle nodir unrhyw amhariadau o'r fath, cymerir camau priodol i liniaru gwrthdaro buddiannau posibl i lefel dderbyniol. Gall camau o'r fath gynnwys atal staff rhag gweithio ar rai archwiliadau neu gyfyngu ar gwmpas yr ymwneud posibl gan unigolyn ag archwiliad penodol.

30 Mae Cod Ymddygiad ar wahân yn ei le ar gyfer aelodau'r Bwrdd y mae'n ofynnol iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau a all fod ganddynt yn unrhyw fater a gall fod yn ofynnol iddynt adael cyfarfodydd lle mae'r mater hwnnw'n cael ei ystyried.

31 Yn ychwanegol at y gwaith statudol y mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ei wneud, o bryd i'w gilydd gall wneud peth gwaith anstatudol. Mae gennym bolisïau a gweithdrefnau sefydledig i sicrhau mai dim ond lle mae gennym y capasiti a'r gallu i wneud y gwaith a lle na fyddai derbyn penodiad o'r fath yn amharu ar annibyniaeth statudol yr Archwilydd Cyffredinol y caiff gwaith o'r fath ei wneud.

32 Lle'r ydym yn hanesyddol wedi ymgysylltu â chwmnïau preifat i wneud gwaith ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, mae wedi bod yn ofynnol iddynt fod â threfniadau tebyg i fonitro a rheoli unrhyw fygythiadau posibl i annibyniaeth mewn perthynas â'r archwiliadau a gyflawnir ganddynt. Mae gennym weithdrefnau i fonitro effeithiolrwydd y trefniadau hynny.

33 Rydym hefyd wedi cyhoeddi Polisi Cylchdroi sy'n rheoli pa mor hir y gall uwch aelodau o staff fod yn rhan o gyfarwyddo unrhyw archwiliad penodol. Mae'r polisi'n ceisio taro cydbwysedd rhwng natur annewisol gwaith yr Archwilydd Cyffredinol gan mwyaf, maint cymharol fach Archwilio Cymru a gofynion y Safon Foesegol.

34 Darperir hyfforddiant i staff yn rheolaidd i godi ymwybyddiaeth o'n polisïau a gweithdrefnau annibyniaeth.

## Canllawiau ac offer archwilio

35 Un o'r elfennau pwysig o gyflawni ansawdd archwilio yw sefydlu dulliau safonedig o wneud ein gwaith.

36 Gwneir ein gwaith archwilio perfformiad yn unol â'n Llawlyfr Cyflawni Gwaith Archwilio Perfformiad. Rydym yn diweddaru'r llawlyfr hwn i'w seilio ar y safonau archwilio perfformiad a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Rhyngwladol Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI). Fel rhan o'n camau i roi safonau INTOSAI ar waith rydym wedi adolygu ein holl brosesau archwilio perfformiad cyfredol ac wedi gwerthuso ein trefniadau rheoli ansawdd ar gamau allweddol yn y broses honno.

37 Rydym yn gwneud gwaith – yn seiliedig ar ymchwil ac arfer da rhyngwladol – i wella effaith archwilio ein gwaith. Yng ngham cyntaf y gwaith hwn, rydym yn canolbwyntio ar:

- ddatblygu rhaglen waith strategol;
- ysgrifennu argymhellion da;
- gwneud gwaith dilynol ar argymhellion mewn archwiliadau blaenorol; a
- dysgu gwersi ar ôl prosiectau.

‘Mae ysgrifennu argymhellion da’n dibynnu ar feddwl a dadansoddi beirniadol effeithiol, yr ydym wedi’i wneud yn flaenoriaeth yn ein rhaglen Dysgu a Datblygu 2022-23. Fel rhan o hyn, ym mis Gorffennaf fe gyflwynodd Audit Scotland weithdy sgeptigaeth a chrebwyll proffesiynol i’n tîm archwilio perfformiad iechyd.

Dywedodd cyfranogwyr wrthym eu bod wedi cael y gweithdy’n werthfawr a’u bod yn awyddus i roi’r syniadau ar waith wrth ddadansoddi tystiolaeth a chreu argymhellion.

Yn awr rydym yn bwriadu cydweithio ymhellach gydag Audit Scotland i gyflwyno’r gweithdy hwn i’r holl gydweithwyr archwilio perfformiad.’

**Gareth Jones a Katherine Simmons**
Arweinwyr Archwilio

38 Mae ein Llawlyfr Cyflawni Gwaith Archwilio Ariannol yn darparu fframwaith ar gyfer cyflawni ein holl waith archwilio cyfrifon. Rydym wrthi’n diweddaru’r Llawlyfr hwn i ystyried newidiadau sylfaenol i safonau archwilio, sy’n dod i rym ar gyfer ein harchwiliadau yn 2022-23.

39 Rydym hefyd yn cyhoeddi cyfarwyddiadau ardystio sy’n nodi canllawiau ynghylch gwneud gwaith ardystio grantiau.

40 Trwy ein methodolegau rydym yn pwysleisio pwysigrwydd ansawdd archwilio a rôl yr holl aelodau o staff o ran cyrraedd y lefelau ansawdd archwilio disgwyliedig. Mae’r methodolegau hyn wedi’u bwriadu i sefydlu llinell sylfaen ar gyfer cymhwyso dyfarniadau a gweithdrefnau cyson i’n holl waith archwilio ac fe’u hategir gan ddogfennaeth a systemau rheoli cofnodion (gweler **platfformau archwilio**), sydd eto’n hybu cysondeb ac ansawdd archwilio.

41 Rydym yn parhau i ddatblygu a defnyddio ystod o offer dadansoddi data ac offer cyfrifiadurol eraill wrth wneud ein gwaith i’n galluogi i holi symiau mawr o ddata cymhleth yn effeithiol ac i gyflwyno ein canfyddiadau mewn fformatau sy’n fwy hygyrch yn weledol. Rydym yn bwriadu cyflymu’r rhaglen honno yn y 18 mis nesaf.

‘Gall yr offeryn Archwilio gyda Chymorth Dadansoddeg (AAA), a ddatblygwyd gan ein tîm Dadansoddeg Data, redeg profion archwilio allweddol ac mae’n cyflwyno’r canlyniadau’n glir i amlygu unrhyw anghysonderau yn y data a allai ddynodi risg o gamddatganiad perthnasol. Wrth ddatblygu’r dull archwilio cyfrifon diwygiedig ar gyfer 2022-23, rwy’n cynnal cyswllt â’r tîm dadansoddeg data ynghylch sut y gellir defnyddio AAA i wella’r dull mwy seiliedig-ar-risg sy’n cynnwys deall yn fanylach sut y mae ffigyrau’n llifo i mewn i gyfrifon.’

**Amy Lord**
Arweinydd Archwilio

## Cymorth Technegol

42 Caiff ein holl archwilwyr eu cefnogi gan ein tîm Datblygu a Chanllawiau Archwilio pwrpasol, sy’n rhoi canllawiau a chyngor arbenigol ynghylch ystod o faterion technegol a phroffesiynol ac yn cefnogi gweithgarwch dysgu a datblygu ein timau archwilio.

## Platfformau archwilio

43 Ar hyn o bryd rydym yn defnyddio platfform archwilio masnachol i gofnodi ein holl waith archwilio cyfrifon a system sy’n seiliedig ar SharePoint ar gyfer ein gwaith archwilio perfformiad. Rydym wedi datblygu system newydd sy’n seiliedig ar SharePoint ar gyfer ein gwaith archwilio cyfrifon i gysoni ein systemau ar gyfer ein holl waith archwilio. Mae’r system SharePoint newydd wedi cael ei threialu ar nifer o archwiliadau 2021-22 cyn y broses arfaethedig i’w chyflwyno’n llawn ar gyfer archwiliadau 2022-23.

44 Mae defnyddio platfformau o’r fath yn ein galluogi i gynyddu cysondeb mewn dogfennaeth a dulliau archwilio ac i gynnwys gwiriadau ansawdd o fewn ein systemau.

45 Er bod safoni dulliau archwilio’n gwella ansawdd archwilio, ni all ddisodli’r angen am sgeptigaeth a chrebwyll effeithiol gan archwilwyr. Trwy ein rhaglenni dysgu a datblygu rydym yn parhau i hybu’r sgiliau hyn gan hefyd ddiweddaru ein methodolegau archwilio i wreiddio arferion gorau ac i ystyried datblygiadau proffesiynol newydd.

## Dysgu a datblygu

46 Rydym yn parhau i fuddsoddi’n helaeth mewn gweithgarwch dysgu a datblygu ar gyfer staff i wella sgiliau proffesiynol a gwybodaeth broffesiynol ein staff. Darperir lwfans dangosol o ddeng niwrnod y flwyddyn ar gyfer yr holl staff i gefnogi eu gweithgarwch dysgu a datblygu proffesiynol.

47 Mae dwy elfen i'n rhaglenni dysgu a datblygu blynyddol:

- rhaglenni gorfodol: mae'r rhain wedi'u bwriadu i sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant mewn meysydd sgiliau craidd a thechnegol newydd ac allweddol sy'n berthnasol i'w rolau; a
- dysgu 'ar alw': caiff hyn ei adnabod o adolygiadau datblygu perfformiad gan unigolion gyda'u rheolwyr llinell a'i fwriad yw cefnogi datblygiad personol unigolion.

48 Caiff canlyniadau ein prosesau monitro ansawdd (gweler **Trydedd linell sicrwydd**) eu rhannu gyda staff ac fe gaiff ymatebion i unrhyw faterion a nodwyd eu cynnwys yn ein rhaglenni dysgu a datblygu fel y bo angen.

49 Mae ein prosesau datblygu personol wedi cael eu hachredu fel system datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) briodol ar gyfer ein staff gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW), Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA), Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a'r Gymdeithas Technegwyr Cyfrifyddu (AAT).

50 Mae effeithiolrwydd ein buddsoddiad mewn datblygiad proffesiynol yn cael ei adolygu a'i asesu'n barhaus. Yn arbennig, cynhelir asesiadau cyfnodol rhwng unigolion a'u rheolwyr llinell o effeithiolrwydd y dysgu a sut y'i rhoddwyd ar waith yn ymarferol.

51 Mae gennym hefyd broses dysgu-ar-ôl-prosiectau ar gyfer prosiectau mawr (gan gynnwys archwiliadau) sy'n ceisio atgyfnerthu ein nod i fod yn sefydliad sy'n dysgu ac yn rhannu ac sy'n ymdrechu i wella'n barhaus. Mae'r broses dysgu-ar-ôl-prosiectau hon yn canolbwyntio ar ystyried beth allwn ei ddysgu o'r ffordd y cyflawnwyd y prosiect ac mae'n hybu'r arfer o ystyried:

- beth weithiodd yn dda;
- beth allai fod wedi cael ei wella;
- sut oedd yn teimlo;
- tystiolaeth o effaith; a
- gwersi ar gyfer y dyfodol.

52 Dros y misoedd nesaf, wrth i ni roi safonau ansawdd archwilio newydd ar waith (isod), byddwn yn datblygu polisi a phroses dadansoddi achosion sylfaenol (RCA) newydd, sy'n ddull systematig ar gyfer adnabod prif achosion problem. Wrth i ni ddylunio'r broses hon rydym wedi cwblhau nifer fach o gynlluniau peilot RCA, sydd wedi ein galluogi i ddatblygu ein ffordd o feddwl am RCA.

## Y drydedd linell sicrwydd: sicrwydd annibynnol

### Monitro Allanol

53 Ar hyn o bryd rydym yn ein trydydd contract ar gyfer gwaith monitro ansawdd allanol gydag Adran Sicrhau Ansawdd (QAD) Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru

a Lloegr (ICAEW). QAD yw’r rheoleiddiwr mwyaf ar gyfer cwmnïau archwilio yn y DU a’r rheoleiddiwr archwilio llywodraeth leol yn Lloegr.

54 Yn yr adran nesaf – Adolygiadau Oer – rydym yn crynhoi’r gwaith a wnaed ar ein cyfer gan QAD yn y flwyddyn ddiwethaf.

## Adolygiadau oer

55 Mae adolygiadau oer yn adolygiadau o archwiliadau neu brosiectau archwilio cyfan a gyflawnir unwaith y mae’r gwaith wedi cael ei gwblhau i asesu’r modd y cydymffurfiwyd â safonau ansawdd rhagnodedig. Caiff yr adolygiadau hyn eu hasesu yn erbyn system sgorio pedwar pwynt fel a ddisgrifir yn **Rhan 3** o’r adroddiad hwn.

56 Mae gennym bolisi ffurfiol o adolygiadau oer ar ddull cylchdro ar gyfer ein gwaith archwilio cyfrifon gydag archwiliadau’n cael eu dethol ar gyfer adolygiad yn unol â’r egwyddorion canlynol:

- caiff pob arweinydd ymgysylltu ei adolygu o leiaf bob dwy flynedd fel arfer (er bod hyn yn tueddu i fod yn flynyddol yn ymarferol); a hefyd
- caiff pob rheolwr archwilio ei adolygu o leiaf bob pedair blynedd fel arfer.

57 Rydym hefyd yn amcanu at sicrhau bod cwmpas yr holl adolygiadau’n cynrychioli’r cyrff yr ydym yn eu harchwilio gan ystyried sectorau archwilio, meintiau’r cyrff a chymhlethdod.

58 Ar gyfer ein harchwiliadau yn 2020-21, cynhaliwyd y rhaglen adolygu hon ar ein rhan gan QAD.

59 Rydym yn gweithredu dull cylchdro o gynnal adolygiadau o brosiectau archwilio perfformiad, gan amcanu at sicrhau bod cwmpas yr adolygiadau’n cynrychioli aelodau’r uwch dîm, y cyrff a archwilir gennym, a’r mathau o brosiectau archwilio. Cyflawnwyd y rhaglen hon gan adolygwyr o Archwilio Cymru.

60 Adroddir ar ganlyniadau’r ddwy raglen hon yn **Rhan 3.**

61 Yn hanesyddol, mae cylch gwaith QAD wedi bod yn gyfyngedig i adolygu ein gwaith archwilio cyfrifon. Fodd bynnag, fe wnaethom roi comisiwn i QAD wneud gwaith ar sail cynllun peilot i adolygu sampl o waith archwilio perfformiad o’r flwyddyn ddiwethaf. Ni roddwyd sgôr i’r adolygiadau hyn. Diben y cynllun peilot hwn oedd cael safbwynt allanol ar y modd y mae ein gwaith archwilio perfformiad yn ymlynu wrth ein safonau ansawdd ac arfer proffesiynol gorau.

62 Rydym yn amlinellu’r canfyddiadau ar y cyfan gan QAD o’r cynlluniau peilot hyn yn **Rhan 3.**

63 Rydym yn cyfranogi mewn rhwydwaith o asiantaethau archwilio o bob rhan o’r DU ac Iwerddon. Mae hyn yn cynnwys rhaglen flynyddol o adolygiadau gan gymheiriaid o rai adroddiadau archwilio perfformiad.

## Adolygiadau thema

64 Adolygiadau heb sgôr o waith archwilio cyfrifon sy’n bwrw golwg ar faterion penodol ar draws nifer o archwiliadau yw adolygiadau thema. Gallai’r rhain ganolbwyntio ar ba mor effeithiol y mae safon archwilio newydd wedi cael ei chymhwyso’n ymarferol; mater sy’n dod i’r amlwg a adnabuwyd ar draws y proffesiwn; neu feysydd sydd o ddiddordeb neu’n peri pryder yn Archwilio Cymru.

65 Mae gwaith adolygiadau thema diweddar wedi cwmpasu busnes gweithredol mewn cwmnïau bychain; archwilio amcangyfrifon mawr; archwilio gwybodaeth sefydliadau gwasanaethau; ac archwilio datganiadau atebolrwydd seneddol. Maent wedi’u bwriadu i fod yn ymarferion dysgu i ganfod a oes angen hyfforddiant pellach, canllawiau neu gymorth arall.

## Adolygiadau Rheoli Ansawdd Ymgysylltu (EQCRs)

66 Mae EQCRs yn adolygiadau o ffeiliau archwilio, neu rannau o ffeiliau archwilio, a gynhelir cyn cwblhau’r archwiliad. Fe’u cwblheir gan gyfarwyddwyr sy’n gymheiriaid a gallant fod yn ofynnol mewn nifer o amgylchiadau, megis lle mae arweinydd ymgysylltu newydd yn ei le; lle cynigir adroddiad archwilio amodol; lle mae’r arweinydd ymgysylltu’n gofyn am adolygiad gan gymheiriaid o fater technegol neu gymhleth; neu lle’r oedd mater a oedd yn ymwneud ag ansawdd mewn blynyddoedd blaenorol. Ni roddir sgôr i’r adolygiadau hyn. Yn hytrach, fe’u cynhelir i ganolbwyntio ar feysydd risg ac i’w gwneud yn bosibl datrys unrhyw faterion sy’n peri pryder cyn rhoi’r farn archwilio.

67 Roedd ein gwaith EQCR yn 2021-22 yn cynnwys adolygiadau o archwiliadau gan Gyfarwyddwr a oedd newydd ei benodi; nifer o addasiadau arfaethedig i adroddiadau archwilio; a gwiriadau cysondeb mewn perthynas â materion a oedd yn gyffredin i nifer o gyrff archwilio.

## Pwyllgor Ansawdd Archwilio

68 Sefydlwyd y Pwyllgor Ansawdd Archwilio yn 2020 i gryfhau ein fframwaith ansawdd archwilio gyda golwg ar gynyddu tryloywder y trefniadau hynny a gwella hyder ynddynt. Mae’r Pwyllgor – sy’n cwrdd yn chwarterol yn unol â’i raglen waith – yn cynnwys:

- Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol Archwilio Cymru (Cadeirydd);
- Y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio yn Archwilio Cymru;
- Cyfarwyddwyr technegol archwilio ariannol ac archwilio perfformiad Archwilio Cymru;
- Y rheolwyr ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru; ac
- aelod proffesiynol annibynnol – Suzanne Walsh – sy’n gyfarwyddwr gyda Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon.

69 Amcanion penodol y Pwyllgor yw ein cynorthwyo i sicrhau:

- bod y trefniadau sydd gan Archwilio Cymru i reoli a monitro ansawdd archwilio'n effeithiol ac yn gyson â safonau ansawdd rhyngwladol;
- bod gwaith yr Archwilydd Cyffredinol o safon ansawdd briodol ac yn ateb y gofynion a nodir yng nghanllawiau Archwilio Cymru ac mewn safonau proffesiynol (lle y bo'n berthnasol); a
- bod ansawdd archwilio'n parhau i wella yn unol ag arfer proffesiynol gorau.

70 Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol yn benodol am ddarparu sicrwydd ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol bod adnoddau priodol yn eu lle i roi cymorth i reoli, monitro a gwella ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru. Cyflawnir hyn trwy Adroddiad Annibynnol y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol, sy'n rhan o'r Adroddiad Ansawdd hwn.

## Cyswllt Ansawdd Archwilio'r Bwrdd

71 Mae Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru wedi cytuno i weithredu fel Cyswllt Ansawdd y Bwrdd i gynorthwyo'r Bwrdd i ddatblygu dealltwriaeth lawnach am ein trefniadau ansawdd archwilio, am yr heriau a wynebir gennym wrth geisio cyflawni ansawdd archwilio a cheisio gwella tryloywder y trefniadau hynny.

72 Rydym ni'n credu bod y rôl hon yn elfen bwysig o'n huchelgais i gyflawni gwelliant parhaus mewn ansawdd archwilio.

## Safonau rheoli ansawdd newydd

73 Bydd angen gwneud newidiadau sylweddol i'n trefniadau rheoli ansawdd mewn ymateb i safonau ansawdd newydd / diwygiedig, a ddaw i rym o 15 Rhagfyr 2022.

74 Hyd y bo'n ymarferol bydd y safonau hyn yn cael eu cymhwyso i'n holl waith trwy God Ymarfer Archwilio'r Archwilydd Cyffredinol.

75 Rydym wedi datblygu cynllun cyflawni ac rydym yn gwneud cynnydd da o ran datblygu system rheoli ansawdd newydd erbyn y dyddiad targed hwn.

> 'Mae ymateb i heriau ecosystem archwilio fwyfwy cymhleth yn golygu bod angen i ni fabwysiadu dull system gyfan integredig ar gyfer mynd ati'n rhagweithiol i reoli risgiau i gyflawni ansawdd archwilio. Mae angen i ni wreiddio ansawdd archwilio da yn ein diwylliant, ein strategaeth a'n holl weithgareddau gweithredol. Rwyf wrthi ar hyn o bryd yn asesu risgiau wedi'u teilwra gan ddefnyddio dull o'r gwaelod i fyny gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad. Rwyf hefyd yn cynnal cyswllt â'n cymheiriaid ledled y DU i feincnodi allbynnau a sicrhau bod y prosesau newydd a ddylunnir gennym yn gyson ag arfer proffesiynol gorau.'
>
> **Aneesa Ali**
> Arweinydd Archwilio

# Rhan 3: Deilliannau ansawdd archwilio

## Adolygiadau oer

76 Yn **Rhan 2** o'r adroddiad hwn rydym yn disgrifio'r prosesau adolygiadau oer sydd gennym i werthuso ansawdd archwiliadau a gwblhawyd.

77 Rydym yn crynhoi canlyniad yr adolygiadau hynny isod, gan ddefnyddio system sgorio pedwar pwynt[8]:

- 1 – Da
- 2 – Derbyniol ar y cyfan
- 3 – Angen gwelliannau
- 4 – Angen gwelliannau sylweddol


78 Targed Archwilio Cymru ar hyn o bryd yw y dylai 100% o'r archwiliadau a gaiff eu samplu gael sgôr o 2 neu uwch yn yr asesiad.

### Canlyniadau adolygiadau oer o archwiliadau o gyfrifon

79 Fel a nodir yn **Rhan 2**, cafodd y rhaglen o adolygiadau oer o archwiliadau o gyfrifon ar gyfer archwiliadau 2020-21 ei chynnal gan QAD. Mewn blynyddoedd blaenorol cafodd y rhaglen honno'i chyflawni gan adolygwyr Archwilio Cymru. Cyflwynir canlyniadau'r adolygiadau hynny yn **Arddangosyn 4** isod yn ôl blynyddoedd ariannol yr archwiliadau.

[8] Rydym wedi mabwysiadu system sgorio newydd QAD / FRC a grynhoir ym mharagraff 76. Fodd bynnag, at ddibenion cymariaethau hanesyddol, mae sgoriau yr adroddwyd arnynt yn flaenorol yn cyfateb i'r fframwaith hwn fel a ganlyn: 1=1; 2a= 2, 2b= 3 a 3=4.

**Arddangosyn 4: canlyniadau adolygiadau oer o archwiliadau o gyfrifon**




Ffynhonnell: QAD

80 Ni chyrhaeddodd un archwiliad o gyfrifon ein targed bod yr holl archwiliadau'n cael sgôr o 2 neu uwch yn yr asesiad. Lle mae hyn yn digwydd rydym yn ystyried pa gamau pellach y mae angen i ni eu cymryd, a all gynnwys adolygiadau pellach os ydym yn pryderu bod y materion a ganfuwyd yn berthnasol ar draws ein gwaith archwilio ehangach ynghyd â gwaith dilynol yn y flwyddyn ganlynol i gadarnhau bod y materion wedi cael sylw.

81 Rhoddodd QAD sgôr o 3 i'r archwiliad hwn, am bod sawl maes lle'r oedd angen peth gwelliant yn hytrach nag un mater a oedd yn peri pryder mawr. Nid effeithiodd y materion ar briodoldeb y farn archwilio. Felly fe gynhaliwyd dadansoddiad achosion sylfaenol peilot ar yr archwiliad. Canfu hwn ystod o wersi ar gyfer y tîm archwilio, Archwilio Cymru a'r proffesiwn ehangach.

> 'Mae cael sgôr 'Angen gwelliant' ar archwiliad lle'r ydych wedi gweithio'n galed ar faterion anodd yn ergyd. Felly roeddwn i a'r tîm yn croesawu 'Dadansoddiad o Achosion Sylfaenol', a oedd yn cynnwys ein cydweithwyr ansawdd a thechnegol, i'n helpu ni i gyd i ddeall beth allem ni ei wella, pam a sut. Fe wnaeth yr adolygiad sensitif a gwrthrychol adnabod achosion sylfaenol, rhoi hyder i'r tîm yn eu gwaith, camau cyflym ymlaen, a rhai gwersi allweddol ar gyfer ein dull yn Archwilio Cymru.'

**Clare James**
Arweinydd Ymgysylltu

82 Caiff yr alldro yn erbyn ein targed cyfredol ei grynhoi yn **Arddangosyn 5**.

**Arddangosyn 5: archwiliadau o gyfrifon – cymharu â'r targed**

| DPA | Targed | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | Cyfartaledd dros dair blynedd |
|---|---|---|---|---|---|
| Wedi cael sgôr o 2 neu uwch yn yr asesiad | **100%** | 83% | 100% | 75% | 87% |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

83 Y canfyddiad ar y cyfan gan QAD am ein gwaith archwilio cyfrifon oedd:

'Ar y cyfan, roedd y gwaith archwilio a adolygwyd gennym yn dal i fod o safon dda, gyda phob ymrwymiad ond un o'r rhai y gwnaethom eu hadolygu'n dderbyniol yn gyffredinol.'

84 Roedd un o'r themâu a adnabuwyd gan adolygiadau oer QAD yn 2020-21 yn ymwneud ag archwilio prisiadau asedau. Rydym wedi cyflwyno gweithdrefnau newydd i wella ein dull archwilio yn y maes hwn ar gyfer archwiliadau 2021-22 ac rydym yn archwilio mesurau eraill ar gyfer blynyddoedd dilynol.

85 Mae'r dull archwilio mewn perthynas â phrisiadau asedau wedi bod yn faes y rhoddir ffocws cynyddol arno ar draws y proffesiwn am nifer o flynyddoedd. Mae'r fframwaith cyfrifyddu ar gyfer asedau'r sector preifat yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gan Drysorlys EM.

86 Adnabu QAD rai meysydd lle ceir arfer da ar draws ffeiliau'r archwiliadau o gyfrifon a adolygwyd fel a ganlyn:


- 'Y broses ar gyfer dethol dyddlyfrau wedi'i dogfennu'n glir;
- Strategaeth brofi a ddisgrifiwyd yn glir;
- Ffeil archwilio wedi'i threfnu'n glir a'i dogfennu'n dda;
- Ystyriaeth i incwm a gwariant wrth bennu'r risg o dwyll wrth gydnabod refeniw ar y cam cynllunio;

- Nodiadau systemau manwl; a hefyd
- Y drafodaeth yng nghyfarfod cynllunio’r tîm ymgysylltu a’r camau gweithredu a ddeilliodd o’r cyfarfod hwn wedi’u dogfennu’n glir.’

## Canlyniadau adolygiadau oer o archwiliadau o berfformiad

87 Nid yw gwaith archwilio perfformiad yn cyd-daro â blwyddyn ariannol benodol o anghenraid. Caiff canlyniadau’r adolygiadau oer a gynhaliwyd gan adolygwyr Archwilio Cymru eu cyflwyno yn **Arddangosyn 6** isod gan gyfeirio at y blynyddoedd calendr pan gwblhawyd a phan adroddwyd ar yr adolygiadau oer.

**Arddangosyn 6: canlyniadau adolygiadau oer o archwiliadau o berfformiad**




Ffynhonnell: Archwilio Cymru

88 Nid adroddwyd ar unrhyw adolygiadau yn 2020 oherwydd blwch mewn adnoddau yn dilyn ymddeoliad y Rheolwr Ansawdd, awydd i adolygu a gwella’r broses adolygu a dymuniad i gysoni’r cylchoedd adolygu ar gyfer archwiliadau o berfformiad ac archwiliadau o gyfrifon i gefnogi adroddiadau integredig.

89 Caiff yr alldro yn erbyn ein targed cyfredol ei grynhoi yn **Arddangosyn 7.**

**Arddangosyn 7: archwiliadau o berfformiad – cymharu â'r targed**

| DPA | Targed | 2020 | 2021 | 2022 | Cyfartaledd dros dair blynedd |
|---|---|---|---|---|---|
| Wedi cael sgôr o 2 neu uwch yn yr asesiad | **100%** | Amh. | 75% | 67% | 73% |

90 Ar gyfer 2022, fe wnaethom samplu pedwar archwiliad a rhoi sgôr i dri ohonynt. Ar gyfer dau archwiliad cafodd y rhan fwyaf o fesurau'r adolygiad oer eu bodloni ac roedd pryderon cyfyngedig mewn meysydd cymharol ynysig. Fe wnaeth y trydydd archwiliad fodloni rhai o'r mesurau yn yr adolygiad oer, ond roedd mwy o fylchau neu wendidau'n amlwg.

91 Ni roddwyd sgôr i'r pedwerydd archwiliad, ond cafodd farn naratif am nad oedd yn archwiliad safonol o berfformiad. Rydym yn bwriadu defnyddio'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu o'r adolygiad hwn i ddatblygu cyfundrefn ansawdd amgen sy'n addas ar gyfer allbynnau o'r fath yn y dyfodol.

92 Eleni fe wnaethom ategu'r rhaglen fewnol trwy dreialu adolygiad allanol o archwiliadau o berfformiad gan ddefnyddio QAD. Ar gyfer dau archwiliad ychwanegol o berfformiad, darparodd QAD grynodeb naratif heb roi sgôr, gan adlewyrchu'r ffaith mai ymarfer peilot oedd hwn.

93 Roedd y canfyddiadau ar y cyfan gan QAD ar gyfer yr adolygiadau o archwiliadau o berfformiad fel a ganlyn. 'Ar y ddau archwiliad o berfformiad, mae cyfle i gryfhau allbwn yr adroddiad trwy:

- fod â dealltwriaeth glir pwy yw cynulleidfa darged yr adroddiad;
- adnabod set o feini prawf archwilio y gellir eu defnyddio i asesu ffocws yr adroddiad;
- asesu'r dystiolaeth a gasglwyd yn erbyn y meini prawf hyn yn feirniadol; ac
- ailfframio'r argymhellion i sicrhau eu bod yn cael effaith, bod y drefn flaenoriaethu'n glir, a bod y partïon perthnasol yn deall beth fydd rhoi'r argymhelliad ar waith yn ei gyflawni, beth ddylai ei gyflawni neu beth allai ei gyflawni.'

94 Fe wnaeth QAD hefyd adnabod peth arfer da o ran coladu tystiolaeth a defnyddio ymarferoldeb SharePoint i ategu'r trywydd archwilio.

# Eich cefnogi chi

Mae Archwilio Cymru wedi datblygu ystod o adnoddau i roi cymorth gyda gwaith i graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru ac i roi cymorth i'r cyrff hynny barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu ar gyfer pobl Cymru.

Trwy ein gwaith Arfer Da rydym yn rhannu arfer a mewnwelediadau sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith archwilio i ategu ein hamcanion i sicrhau, esbonio ac ysbrydoli.

Mae ein cylchlythyr yn rhoi diweddariadau rheolaidd i chi ar ein gwaith i archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.